

Cysylltiadau:

Y DU: Tristram Denton
+44 (0) 7824 408 059
Tristram.denton@hgne.hitachi.eu

**Adweithydd Dŵr Berw Uwch Hitachi-GE ar gyfer y DU yn cymryd cam pwysig ymlaen
yn y broses o Asesu'r Dyluniad Generig (GDA)**

28 Awst, 2014 - Heddiw, mae Hitachi-GE wedi symud gam yn nes at osod Adweithydd Dŵr Berw Uwch (ABWR y DU) ym Mhrydain, ar ôl i reoleiddwyr y sector niwclear gadarnhau y byddant yn symud i Gam 3 y broses o Asesu'r Dyluniad Generig (GDA).

Bydd yr adweithydd (ABWR y DU) yn cael ei osod gan Horizon Nuclear Power yn eu dau safle yn Wylfa, ar Ynys Môn, ac Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw.

Dywedodd Mr Ken Sato, Rheolwr Cyffredinol, Trwyddedu, Hitachi Europe Ltd. ar ran Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd: "Mae symud i Gam 3 yn dangos y cynnydd sylweddol a chyson rydym wedi'i wneud. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi cyrraedd y garreg filltir bwysig hon ac ar y trywydd iawn i gwblhau'r GDA erbyn diwedd 2017.

"Mae GDA yn asesiad trwyadl a manwl, ac edrychwn ymlaen at ddarparu rhagor o sylwadau, a fydd yn mynd yn fwyfwy manwl, i'r rheoleiddiwr yn ystod y misoedd nesaf.

"Erbyn hyn, mae gan Hitachi-GE dîm o dros 40 o arbenigwyr yn gweithio ar yr asesiad mewn tri lleoliad yn y DU a chânt eu cefnogi gan dîm ehangach ar draws grŵp Hitachi. Mae ein hól-troed yn y DU yn tyfu gyda phob cam a gymerwn, wrth inni wella ein dealltwriaeth o amgylchedd rheoleiddio'r DU a gweithio gyda'r rheoleiddwyr i gyflawni eu disgwyliadau.

Aeth yn ei flaen: "Mae technoleg yr ABWR wedi'i phrofi a dyma'r unig adweithydd cenhedlaeth III+ sydd wedi dod yn weithredol yn unrhyw le yn y byd. Bydd adeiladu'r adweithydd yn Wylfa, ac wedyn yn Oldbury, yn creu miloedd o swyddi, a bydd yn cynhyrchu'r ynni diogel, cynaliadwy a fforddiadwy y mae'r DU ei angen. Rydym yn falch ein bod yn symud ymlaen yn gadarn, ac yn edrych ymlaen at gyflawni'r gwaith ar gyfer Horizon".

Dywedodd Prif Swyddog Gweithredol Horizon Nuclear Power, Mr Alan Raymant: "Rydym yn croesawu'r cynnydd cadarnhaol y mae Hitachi-GE yn ei wneud ar yr elfen hanfodol hon er mwyn datblygu'n cynlluniau i ddarparu trydan diogel, carbon isel a

fforddiadwy ar gyfer y DU. Yn dilyn y cyhoeddiad cadarnhaol diweddar ar y broses Cyfiawnhad Rheoleiddiol, ac wrthi inni lansio ein cylch cyntaf o ymgynghoriadau â'r cyhoedd ym mis Medi, mae'n dangos ein bod ar y trywydd iawn i gynhyrchu pŵer yn hanner cyntaf y ddegawd 2020".

Diwedd

Cyswllt:

Tris Denton, Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd.

Tristram.denton@hgne.hitachi.eu +44 (0) 7824 408 059

Nodiadau i olygyddions:

- Heddiw mae Hitachi-GE wedi cyhoeddi ei adroddiad Diogelwch Cyn Adeiladu (PCSR) a'r drwydded Amgylcheddol Generig (GEP) ar y wefan GDA ar gyfer ABWR y DU: <http://www.hitachi-hgne-uk-abwr.com/>
- Mae Rheoleiddwyr y DU – y Swyddfa dros Reoli Niwclear, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru – wedi cyhoeddi eu hadroddiadau cryno a'u hadroddiadau asesu ar gyfer cam 2 y broses GDA. Mae'r rhain ar gael ar wefan GDA y cyd-reoleiddwyr: <http://www.onr.org.uk/new-reactors/index.htm>
- Mae'r rheoleiddwyr wedi cadarnhau "nad ydynt wedi canfod unrhyw faterion diogelwch nac amgylcheddol sylfaenol ar y cam hwn a fyddai'n golygu bod UK ABWR yn annerbyniol i'w ddefnyddio yn y DU".
- Hitachi-GE yw darparwr adweithydd a'r prif contractiwr i Horizon Nuclear Power. Mae Adweithydd Dŵr Berw Uwch (ABWR) Hitachi-GE eisoes wedi ei adeiladu ar dri safle (pedair uned), ac mae wedi cael cymeradwyaeth reoleiddio mewn tair gwlad o gwmpas y byd.
- Yng ngwanwyn 2013, llofnododd Hitachi-GE gytundebau asesu gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) ac Asiantaeth yr Amgylchedd, gan ddechrau'r broses 'Asesu'r Dyluniad Generig'. Pan symudodd i Gam 2 ym mis Ionawr 2014, dechreuodd y cwmni gyfnod sylweddol o ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, gan lansio gwefan newydd yn y DU yn benodol ar gyfer egluro technoleg yr adweithydd a gwahodd sylwadau ar y dyluniad: <http://www.hitachi-hgne-uk-abwr.com/>

- Mae'r wefan yn rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau neu gwestiynau am ddyluniad yr adweithydd, neu ar y cyflwyniadau y mae Hitachi-GE wedi eu gwneud i'r rheoleiddwyr. Ni luniwyd y broses ar gyfer trafod polisi'r Llywodraeth ynghylch ynni niwclear ac nid yw'n gorgyffwrdd â'r caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau arfaethedig Horizon.

Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd.

Sefydlwyd Hitachi-GE ym mis Gorffennaf 2007 fel menter ar y cyd rhwng Hitachi, Ltd. a'r General Electric Company. Mae'n un o wneuthurwyr gorsafoedd cynhwysfawr a blaengar y byd ac mae'n ymwneud â datblygu, cynllunio, dylunio, cynhyrchu, archwilio, gosod, gwneud gwaith cynweithredol, a chynnal a chadw offer perthnasol i adweithyddion niwclear, a gall reoli prosiectau integredig. Mae Hitachi-GE wedi bod ynghlwm wrth 23 adweithydd yn Siapan hyd yma, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Yn eu mysg, mae wedi cymryd rhan yn holl brosiectau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch (ABWR) Siapan – mae pedwar ABWR eisoes ar waith ac mae tri arall wrthi'n cael eu hadeiladu. Dramor, mae wedi cyflenwi offer adweithydd niwclear mawr ar gyfer Gorsaf Pŵer Niwclear Lungmen yn Taiwan.

Horizon Nuclear Power

Ffurfiwyd Horizon Nuclear Power yn 2009 i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU. Prynwyd y cwmni gan Hitachi Ltd, Japan ym mis Tachwedd 2012. Mae'r cwmni wrthi'n datblygu cynlluniau i adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd a fydd yn cynhyrchu o leiaf 5,400MW o bŵer niwclear, un yn Wylfa ar Ynys Môn a'r llall yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw. Pan fydd y gorsafoedd pŵer yn weithredol, byddant yn cyflogi hyd at 1000 o bobl yr un, a phan fydd y gwaith adeiladu ar ei anterth, disgwylir gweithlu o hyd at 6000. I gael rhagor o wybodaeth am Horizon, ewch i www.horizonnuclearpower.com/hafan.